

PROFFIL RÔL

Teitl y Swydd	Cynorthwydd Cyflwyno Cystadlaethau
Adrodd i	Pennaeth Cystadlaethau
Lleoliad	Yn bennaf yn y swyddfa yn ein pencadlys; Campws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, Lecwydd, Caerdydd (CF11 8AZ)
Patrwm Gweithio	Llawn amser (37 awr yr wythnos dros 7 diwrnod); tymor penodol Ionawr - Mawrth

Mae patrymau gweithio hyblyg ar gael, a bydd y rôl yn cynnwys gweithio mewn digwyddiadau gyda'r nos / dros y penwythnos o bryd i'w gilydd o fewn yr wythnos 37 awr

Pwrpas Rôl	Gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i gefnogi cyflwyno cystadlaethau effeithiol ac atyniadol ledled Cymru.
-------------------	---

Cyfrifoldebau

Cyflwyno

Digwyddiadau

- Gweithio gyda'r Adran Gystadlaethau i sicrhau bod cystadlaethau'n cael eu cyflwyno'n llwyddiannus yng Nghymru, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
 - Gofalu am archebion cyn y digwyddiad, y gwaith gweinyddu a pharatoi
 - Rhedeg y digwyddiad yn gyffredinol
- Gweithio gyda'r Adran Gyfathrebu i gynhyrchu deunyddiau hyrwyddo, brandio a chynlluniau cyfathrebu ar gyfer pob un o gystadlaethau Athletau Cymru.
- Cynorthwyo trefnwyr cyfarfodydd allanol fel y dirprwya'r Pennaeth Cystadleuaeth
- Mynychu cyfarfodydd penodol cysylltiedig â darparu cystadlaethau fel sy'n briodol
- Bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau cwsmeriaid mewn perthynas â chystadlaethau Athletau Cymru
- Cynorthwyo i sefydlu a darparu digwyddiadau a darparu cefnogaeth i'r gweithlu gwirfoddol yn y digwyddiadau hynny
- Cynnal gwerthoedd sefydliadol Athletau Cymru a chyfrannu at waith a lles y tîm staff

Manyleb Person

Sgiliau	Hanfodol	Manteisiol
Sgiliau TG da, gan gynnwys Microsoft Office, a chyfforddus yn ymgysylltu dros y cyfryngau cymdeithasol	✓	
Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig.	✓	
Sgiliau trefnu a sgiliau gweinyddol rhagorol	✓	
Gallu gweithio'n gyson trwy gyfnodau prysur ar wahanol ddigwyddiadau a phrosiectau, a hyder i adnabod tasgau pwysig/brys a blaenoriaethu yn unol â hynny	✓	
Profiad		
Profiad blaenorol o gyflwyno digwyddiadau chwaraeon		✓
Profiad o reoli gwirfoddolwyr	✓	
Profiad o reoli gwefan		✓
Gwybodaeth		
Diddordeb mewn Athletau yng Nghymru a gwybodaeth am y maes	✓	
Rhinweddau Personol		
Hunan-gymhellol a gallu gweithio ar eich menter eich hun	✓	
Ymrwymo i ddarparu gwasanaeth eithriadol i bawb; cydweithwyr a chwsmeriaid	✓	
Y gallu i ennyn brwdfrydedd ac ysgogi eraill	✓	
Gallu teithio ledled Cymru (a Phrydain yn ôl yr angen)	✓	
Gallu gweithio dan bwysau ac o fewn amser penodol	✓	
Sylw agos i fanylion	✓	
Gallu siarad, deall ac ysgrifennu yn Gymraeg		✓

Pecyn Buddion

Teitl y Swydd	Cynorthwydd Cyflwyno Cystadlaethau
Cyflwg	£ 19,000, pro-rata
Cyfnod y Swydd	3 mis
Gwyliau	6 diwrnod + Gwyliau Banc
Oriau	37 awr yr wythnos
Buddion eraill	Cynllun Pensiwn y Cwmni (cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol o hyd at 6%) Parcio am ddim ar safleoedd ein swyddfeydd (NIAC, CISC) Cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa wedi'u hariannu
Cyfnod rhybudd	1 mis

Eisiau ymuno â'n tîm?

Darllenwch y proffil rôl yn ofalus, yn enwedig yr addysg, y sgiliau a'r profiad hanfodol sy'n ofynnol er mwyn llwyddo cyn mynd i'n gwefan i gychwyn ar eich cais yn:

- [Gwnewch gais yma: https://welshathletics.peoplehr.net/JobBoard](https://welshathletics.peoplehr.net/JobBoard)
- [Er mwyn ein cynorthwyo i sicrhau ein bod yn cynyddu amrywiaeth ein chwaraeon, byddem yn ddiolchgar pe baech hefyd yn llenwi'r ffurflen Monitro Cydraddoldeb hon](#)

Rydym yn cadw'r hawl i gau swyddi gwag cyn y dyddiad cau penodedig, pe derbynnir nifer fawr o geisiadau. Gwnewch gais yn gynnar i osgoi cael eich siomi.

Rydym yn penodi gyda system agored a gonest sy'n seiliedig ar arferion gorau presennol ac os oes arnoch chi angen unrhyw gymorth i gwblhau eich cais neu os oes arnoch chi angen fformat gwahanol, cysylltwch â:

Rob Sage, Athletau Cymru

Rob.sage@welshathletics.org 029 20 644870

Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, Ffordd Lecwydd, Caerdydd, CF11 8AZ

**LISTEN
ENGAGE
REPRESENT**



Sylwer os gwelwch yn dda,

Rydym yn ymrwmo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac yn disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.

Gall y swydd y gwneir cais amdani fod wedi ei heithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr ac felly mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddatgelu unrhyw gollfarnau sydd wedi eu disbyddu. Mae unrhyw swyddi sy'n golygu cyswllt â phlant neu oedolion agored i niwed wedi'u heithrio.

Rydym yn ymrwmo i gynhwysiant ac yn croesawu ysbryd pob deddfwriaeth cydraddoldeb. Lle bo modd, byddwn bob amser yn barod i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau hygyrchedd i unrhyw un sydd ei angen.

Nid oes modd i ni gynnig nawdd fisa ac mae'n rhaid bod gan bob ymgeisydd hawl i weithio yn y DU er mwyn gwneud cais a chael eich ystyried ar gyfer y swydd hon. Os nad ydych chi'n un o wladolion y Deyrnas Unedig/UE, rhaid bod gennych chi fisa gwaith priodol er mwyn bod yn gyflogedig.

Bydd eich data personol yn cael ei gadw am hyd at ddwy flynedd a'i ddefnyddio i ddibenion recriwtio Athletau Cymru yn unig, er mwyn rhoi gwybod i chi am swyddi gwag newydd neu ei brosesu'n unol â swydd wag y byddwch yn gwneud cais amdani yn y dyfodol.

Ni fyddwn byth yn rhoi eich manylion i drydydd parti. Er mwyn dysgu mwy am ein dull o barchu eich preifatrwydd, ewch i'n tudalen ar Breifatrwydd, Cwcis a Hawlfraint.

- <http://www.welshathletics.org/privacy,-cookies,-copyright.aspx>

I gael mwy o wybodaeth am Athletau Cymru, ewch i'n gwefan a thudalen 'Amdanom Ni'

- <http://www.welshathletics.org/about-us.aspx>